**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ddydd Mercher, 7 Hydref 2015.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ann Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Kenneth Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Raymond Jones, Richard Owain Jones, Nicola Roberts. |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorydd Lewis Davies |
| **Hefyd yn bresennol:** | Y Cynghorwyr Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio), Dafydd Rhys Thomas. R.Llewelyn Jones, Trefor Lloyd Hughes, Llinos Medi Huws, Mr Gary Soloman a Mr Stephen Humphries (Burges Salmon) |

10:30 y.b. i 1:10 y.p.

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 SESIWN BRIFFIO AELODAU - DATBLYGIAD LAND & LAKES** |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod briffio anffurfiol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2015.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 DATBLYGIAD LAND & LAKES** |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio i greu fersiwn derfynol y Cytundeb Adran 106 a'i gwblhau yn unol â'r penawdau telerau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 29 Gorffennaf 2015 ac fel y cawsant eu diweddaru yn yr adroddiad i'r cyfarfod hwn, ac wedi hynny rhyddhau'r caniatâd cynllunio gydag amodau fel y cymeradwywyd yn flaenorol, gan gynnwys unrhyw amodau ychwanegol neu ddiwygiedig yr ystyrir sy'n briodol yn amodol ar y gwelliannau ychwanegol a ganlyn a gytunwyd yn y cyfarfod:**<br><br>**• Addasu cymal 1.1.4 i ddarllen "na ellir trosi unrhyw uned i'w defnydd etifeddiaeth oni bai ei bod yn bodloni'r meini prawf neu oni bai** |

| | |
|---|---|
| | **y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan y Cyngor" (neu eiriau i'r perwyl hwnnw).**<br>**• Bod rhaid i uned gael rhywun yn byw ynddi am o leiaf bedair blynedd iddi fod yn gymwys i'w defnyddio fel uned etifeddiaeth.** |